# Llais y Goedwig – Adroddiad Gwerthuso Grant Strategol Gwirfoddoli Cymru

Mae Llais y Goedwig wedi derbyn Grant Strategol Gwirfoddoli Cymru CGGC ers Hydref 2023, gan eu galluogi i weithio gyda gr p ymroddedig o Awdurdodau Lleol yng Nghymru i'w helpu i ddiffinio a gwella dulliau a phrosesau ar gyfer gwirfoddoli ar wahanol lefelau.

Mae hyn wedi amrywio o gefnogi grwpiau gwirfoddoli dan reolaeth yr awdurdod lleol mewn ardaloedd gwyrdd, hyfforddiant a marchnata, cymorth gyda recriwtio a chylchlythyrau a helpu gyda chytundebau rheoli ar gyfer grwpiau gwirfoddoli awtonomaidd sydd eisiau rheoli ardaloedd gwyrdd sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol.

Yn y 3 mis olaf o'r cyllid grant cychwynnol, rydym hefyd wedi ehangu cwmpas a chyrhaeddiad y wybodaeth rydym yn ei gasglu i bob Awdurdod Lleol ar draws Cymru drwy weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) er mwyn arolygu holl Gynghorau Cymru a'u Cynghorau Gwirfoddol Sirol lleol ynghylch eu hanghenion gwirfoddoli

**Nodau'r Prosiect**

- Helpu awdurdodau lleol i wneud eu mannau gwyrdd yn fwy hygyrch i wirfoddolwyr a sefydliadau amgylcheddol drwy gyfleoedd gwirfoddoli da
- Darparu cefnogaeth wedi'i theilwra gyda systemau a phrotocolau ar gyfer gwirfoddoli, gan ychwanegu at eich strategaeth eich hun ar fannau gwyrdd.
- Helpu gyda chysylltiadau adrannol mewnol i gefnogi cyfleoedd gwirfoddoli ac iechyd a llesiant i holl drigolion eich sir.

**Adnoddau**

1. Adroddiad gwerthuso
2. Astudiaeth achos: Cyngor Sir Gaerfyrddin
3. Astudiaeth achos: Cyngor Sir Ceredigion
4. Astudiaeth achos: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
5. Astudiaeth achos: Cyngor Sir y Fflint
6. Astudiaeth achos: Cyngor Tref Aberhonddu